*Roedd yr wybodaeth hon yn gywir ar 08 Ebrill 2019. Ewch i'r wefan Paratoi Cymru a Cyd-ffederasiwn GIG Cymru FAQs i gael y cyngor diweddaraf.*

**Cynulleidfa:** Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol proffesiynol

**Dosbarthiad:** Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Byrddau Iechyd y GIG, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyd-ffederasiwn GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned

---

Mae'r bwletin Brexit hwn yn rhoi crynodeb i chi o'r materion sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
Mae'r bwletin hwn yn canolbwyntio ar gynlluniau wrth gefn a nodwyd yn llythyr Andrew Goodall, dyddiedig 4 Ebrill 2019, at Brif Weithredwyr y GIG a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

**Cynlluniau wrth gefn**

Rydym yn hyderus bod cynlluniau clir a chadarn ar waith i ddiogelu gwasanaethau cyn belled â bod hynny'n bosibl, rhag unrhyw darfu ar gyflenwadau pan fyddwn yn ymadael â'r UE. Gallai fod angen gwneud rhywfaint o gynllunio neu drefniadau gweithio amgen yn ystod y misoedd nesaf, ond mae cynlluniau wrth gefn, sydd wedi eu treialu'n drylwyr, ar waith i ymdrin â hynny.

Rydym yn eich annog chi a'ch cydweithwyr i barhau'n wyliadwrus o ran eich cyngor i'r cyhoedd, yn enwedig o ran gor-archebu neu or-ragnodi meddyginiaethau. Nid oes angen pentyrru meddyginiaethau'n lleol, gan y gallai hynny beri prinder a fyddai'n rhoi'r rheini y mae angen meddyginiaethau arnynt mewn perygl.

Dyma grynodeb o ganllawiau sylfaenol i'w rhannu ar draws eich sefydliad.

- **Dyfeisiau meddygol, defnyddiau traul (MDCC)**

Mae'r dull gweithredu y dylid ei ddefnyddio i sicrhau bod y cyflenwad o ddyfeisiau meddygol a defnyddiau traul yn parhau yn cynnwys cymryd rhan yn system Ymateb i Darfu ar y Cyflenwad Cenedlaethol y DU (NSDR), yn ogystal â sefydlu canolfan gymorth yng Nghymru i ymateb i darfu ar gyflenwadau (SDSC) i helpu'r Gwasanaethau Caffael a Byrddau/Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Cymru.

Bydd angen ymdrin ag unrhyw darfu ar gyflenwadau drwy weithgarwch *busnes fel arfer*, o dan arweiniad staff caffael rheng flaen, sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r cyflenwyr, er mwyn gweld a yw nwyddau ar gael a beth yw'r sefyllfa o ran eu cludo. Dim ond pan fo'r prosesau *busnes fel arfer* hyn wedi cael eu defnyddio i'r eithaf y dylid mynd at ganolfan gymorth Cymru.

- **Meddyginiaethau a brechlynnau**

Eisoes mae trefniadau sydd wedi eu hen sefydlu ar waith i reoli unrhyw brinder. Tîm cyflenwi meddyginiaethau profiadol iawn, sydd wedi ei leoli yn Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU,

sy'n gyfrifol am arwain ar y trefniadau hyn. Hefyd rydym ninnau wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Brinder Meddyginiaethau (Cymru), o dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Fferyllol Cymru.

Dylech barhau i reoli unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r cyflenwad o feddyginiaethau fel yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd. Dylech barhau i adrodd ar unrhyw broblemau sy'n codi gyda chyflenwadau o feddyginiaethau, a phroblemau y mae angen cymorth i'w datrys, drwy eich Adran Fferyllol.

- **Treialon clinigol**

Cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o dreialon clinigol ar draws y DU, a bydd cyflenwadau'n cael eu blaenoriaethu drwy ddefnyddio trywyddau amgen i sicrhau bod cyflenwad y cynhyrchion hyn yn gallu parhau i lifo.

Os ydych yn cael unrhyw broblemau sy'n ymwneud â chyflenwadau, dylech gysylltu â noddwr y treial, neu'r sefydliad sy'n rhedeg y treial neu'r ymchwiliad clinigol.

- **Gwaed a chynhyrchion gwaed**

Mae perthynas sy'n seiliedig ar weithio ar y cyd wedi ei hen sefydlu rhwng pedair gwlad y DU, er mwyn darparu sicrwydd ynglŷn â chael gafael ar gynhyrchion gwaed, eu hansawdd, a'u diogelwch, ar draws y DU gyfan. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn bwriadu cadw a chynnal oddeutu gwerth 12 wythnos o stoc allweddol o eitemau hanfodol y gadwyn gyflenwi gwaed, o'i gymharu â chadw cyflenwad gwerth mis o dan amgylchiadau arferol.

Os bydd problemau sy'n ymwneud â gwaed a chynhyrchion gwaed yn codi, dylech barhau i ddefnyddio'r sianeli presennol sydd ar gael drwy Wasanaeth Gwaed Cymru.

- **Organau, meinweoedd, a chelloedd**

Pasiwyd deddfwriaeth ym mis Tachwedd 2018 rhag ofn y byddem yn ymadael â'r DU heb unrhyw gytundeb, er mwyn sicrhau y bydd y gofynion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch organau, meinweoedd, a chelloedd yn parhau'n gyffredinol debyg ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

O ran unrhyw faterion sy'n ymwneud ag organau ar gyfer eu trawsblannu, dylech barhau i ddefnyddio'r sianeli presennol drwy Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

O ran materion sy'n ymwneud â meinweoedd a/neu gelloedd, dylech barhau i ddefnyddio'r sianeli presennol drwy Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, neu'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol, fel y bo'n briodol.

- **Diogelwch Iechyd y Cyhoedd**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi systemau amgen i'r systemau rhybudd ac ymateb cynnar a ddarperir ar hyn o bryd gan Ganolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop, i'w defnyddio os na fydd cytundeb.

- **Bwyd**

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd prinder cyffredinol o fwyd, er y gallai fod llai o ddewis a phrinder o ran rhai cynhyrchion penodol sy'n cael eu mewnforio o'r UE, megis rhai mathau o ffrwythau a llysiau ffres.

Mae'r GIG wedi arfer ag ymdrin ag achosion o brinder bwyd tymor byr sy'n digwydd o ganlyniad i amrywiadau tymhorol, felly rydym yn disgwyl y bydd dull gweithredu sy'n seiliedig ar synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio i gynllunio bwydlenni, ac y bydd y ddarpariaeth o brydau bwyd maethlon a chytbwys yn parhau.

- **Gwastraff Clinigol**

Ni nodwyd unrhyw risgiau systemig i'r sector gwastraff clinigol, felly nid oes angen cymryd camau.

- **Golchi dillad**

Nid yw'r trafodaethau gyda'r cyflenwyr wedi nodi unrhyw risgiau o bwys, felly nid oes angen cymryd camau pellach.

- **Tanwydd**

Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y diwydiant tanwydd mewn sefyllfa dda i allu ymateb i unrhyw darfu ar gyflenwadau.

Nid oed angen cymryd camau sydd y tu hwnt i'r Rhagdybiaeth o Risg Cenedlaethol, sef y dylai gwasanaethau hanfodol fod mewn sefyllfa i redeg am 10 diwrnod os bydd tarfu ar gyflenwadau tanwydd.

- **Data**

Mae sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi cymryd camau i leddfu'r effeithiau posibl a allai ddigwydd o ganlyniad i ymadael heb gytundeb, drwy wneud trefniadau diogel ar gyfer anfon data personol o'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd i'r DU.

**Neges gan Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru:**

Rwy'n ddiolchgar iawn ichi, eich staff, a phartneriaid allweddol, am yr holl waith caled sy'n cael ei gyflawni. O ganlyniad i’r gwaith hwnnw, rydym mor barod ag y gallwn ddisgwyl bod, o siarad yn rhesymol, ar gyfer canlyniadau sefyllfa sy'n parhau'n hynod ansicr, ac a all gael effeithiau na ellir eu rhagweld.

---

**Os hoffech wybod mwy.**

I gael rhagor o wybodaeth:

Chwiliwch am Paratoi Cymru

neu NHS Confederation Wales Brexit FAQs

*This information was correct as of 08 April 2019. Please see the Preparing Wales website and the Wales NHS Confederation FAQs for the most up-to-date advice.*

**Audience:** Health and Social Care professionals

**Circulation:** Welsh Government, Welsh Local Government Association, NHS Health Boards, Association of Directors for Social Services, NHS Confederation Wales, Health Inspectorate Wales, Care Inspectorate Wales, Social Care Wales, Board of Community Health Councils

---

This Brexit bulletin is a summary of the issues affecting health and social care in Wales. This bulletin is focused on contingency plans set out Andrew Goodall's letter of 4 April 2019 to NHS Chief Executives and the wider health and social care sector.

## Contingency Plans

We are confident there are clear and strong plans in place to make sure services are protected, as far as possible, from any disruption when we leave the EU. There may need to be some alternative planning or working arrangements in the next few months, but there are well tested contingency plans for this.

We urge you and your colleagues to remain vigilant in your advice to the public, particularly with regards over-ordering or over-prescribing medicines. Local stockpiling is unnecessary and could cause shortages which would put those that need medicines at risk.

Here is a summary of basic guidelines to share throughout your organisations:

- **Medical Devices, Clinical Consumables (MDCC)**

The approach to ensure continued supply of MDCC includes participation in the UK National Supply Disruption Response (NSDR) system, as well as a Welsh Supply Disruption Support Centre (SDSC) being established to support Procurement Services and NHS Wales Health Boards/Trusts.

Any disruptions to supplies will first need to be dealt with by normal 'business as usual' operations led by frontline procurement staff dealing directly with suppliers to determine availability and delivery arrangements of goods. Only when these 'business as usual' processes have been exhausted should the SDSC be approached.

- **Medicines and Vaccines**

There are already well established mechanisms for managing shortages led by the very experienced medicines supply team based at UKs Department for Health and Social Care and we have also established the Medicines Shortage Advisory Group (Wales) chaired by the Chief Pharmaceutical Officer for Wales.

You should continue to manage medicines supply issues as you currently do. Any medicines supply issues that you are concerned about, or for which you need more help, should continue to be reported via your Pharmacy Department.

- **Clinical Trials**

A comprehensive assessment of clinical trials has taken place across the UK and supplies will be prioritised on alternative routes to ensure that the flow of all these products can continue.

If you have any issues regarding supplies you should contact the sponsor of the trial or the organisation running the clinical trial or investigation.

- **Bloods and Blood Products**

There is a well-established joint working relationship between the four UK countries to provide assurance around quality, safety and accessibility of blood products across the whole UK. The Welsh Blood Service is planning to hold and maintain around 12 weeks of critical stock for blood supply chain critical items, compared to about a month's supply under normal circumstances.

For issues involving blood and blood products you should continue to use existing channels via the Welsh Blood Service.

- **Organs, Tissues and Cells**

Legislation was passed in November 2018 in case of a 'no deal' EU exit to ensure that the requirements in relation to quality and safety of organs, tissues and cells remain broadly the same once the UK leaves the EU.

For any issues involving organs for transplant, you should continue to use existing channels via NHS Blood and Transplant (NHSBT).

For issues involving tissues and/or cells, you should continue to use existing channels via NHSBT, the Human Tissue Authority (HTA) or the Human Fertilisation and Embryology Authority (HFEA) as appropriate.

- **Public Health Security**

Public Health Wales has identified alternatives to early alerting and response systems currently provided by European Centre for Disease Control (ECDC) in the event of a no deal.

- **Food**

There is no evidence to suggest there will be an overall shortage of food, although , there could be a reduction in the choice and availability of certain products imported from the EU, such as some types of fresh fruit and vegetables.

The NHS is accustomed to handling short term food shortages as a result of a seasonal variations so we expect that a common sense approach to menu planning will mean nutritious and balanced meals will continue.

- **Clinical Waste**

No systemic risks to the clinical waste sector have been identified so no action is required.

- **Laundry**

Discussions with suppliers have identified no major risks so no further action is required.

- **Fuel**

The UK Government believes that the fuel industry is well positioned to respond to any disruptions .

No action is required beyond the National Risk Assumption that essential services should be in a position to run for 10 days without fuel supplies.

- **Data**

Health and social care organisations in Wales have taken steps to mitigate the potential impact of no deal by making appropriate safeguards to send personal data from the EU/EEA to the UK.

**Andrew Goodall, Chief Executive of NHS Wales, message:**

I am very grateful for the work of you, your staff and key partners. As a result, we are as prepared as we can reasonably be for what remains even at this late stage an extremely uncertain outcome with unpredictable impact.

---

**What can you find out more information?**

For more information:

Search Preparing Wales

Or NHS Confederation Wales Brexit FAQs